**Adolygwyd: Chwefror 2014**

PEMBROKESHIRE
BIODIVERSITY
PARTNERSHIP

PARTNERIAETH
BIOAMRWYIAETH
SIR BENFRO

# Cynllun Gweithredu Rhywogaeth: Mursen Las Penfro *(Coenagrion mercuriale)*

## Cyflwyniad

### Cwmpas

Mae'r cynllun gweithredu rhywogaeth hwn yn ymdrin â Mursennod Glas Penfro (Coenagrion mercuriale). Mae gan y rhywogaeth gysylltiad agos â nentydd sy'n llifo'n araf ar rostiroedd a dylid cyfeirio at Gynlluniau Gweithredu Cynefinoedd y Rhostir a'r Dŵr Croyw o ran rheolaeth gyffredinol cynefinoedd all fod o fudd i'r rhywogaeth hon yn ogystal â'r camau a nodir isod. Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i'r rhywogaeth yn Sir Benfro yn gyffredinol. Mae nodau mwy penodol ar gyfer y poblogaethau yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Preseli ac fe'u nodir yng nghynllun rheoli ACA Preseli. Mae gofynion rheoli cynefin a safle-benodol manwl yn cael eu nodi yn "An Overview of the Management Requirements of the Southern Damselfly (*Coenagrion mercuriale*-Charpentier) with Recommendations and Suggested Methodology for Habitat Improvement Within and Near to the Preseli SAC".


### Datganiad o weledigaeth

I gynnal a chynyddu maint a dosbarthiad poblogaethau Mursen Las Penfro yn Sir Benfro.

### Disgrifiad o'r Rhywogaeth

Mae Mursen Las Penfro yn un o nifer o fursennod bach glas tebyg iawn i'w gilydd o ran eu golwg. Gellir adnabod y math hwn o'r marc du yn agos at dop ei habdomen sy'n debyg i symbol y seryddwyr ar gyfer y blaned Mercher (gweler Ffigur 1). Mae ei hymddygiad hefyd yn wahanol i fursennod tebyg eraill gan fod ei hedfaniad yn wan iawn a'i bod yn dueddol o hedfan yn ysgafn drwy'r llystyfiant. Mae oedolion gwrywaidd yn las ac yn haws eu gweld na'r benywod lliw gwyrdd olewydd llwydaidd.

**Adolygwyd: Chwefror 2014**


Ffigur 1: marciau ar ail ran yr abdomen

Mae Mursen Las Penfro'n treulio'r rhan fwyaf o'i chylch bywyd yn y cyfnod larfaol mewn amgylchedd dyfrol. Mae'n dodwy wyau ar goesau llystyfiant dyfrol tanddwr mewn dŵr digysgod. Mae'r larfa'n bwydo ar ferdys dŵr croyw bychain a larfa pryfed mewn nentydd am ddwy flynedd cyn ymddangos fel oedolion. Mae'r oedolion yn ymddangos fel arfer o ganol mis Mai hyd ddiwedd mis Gorffennaf ac mae arnynt angen planhigion neu rafftiau o lystyfiant sy'n arnofio, gyda bonion gweddol stiff, fel *Juncus articulatus* (y llafrwynen) er mwyn codi eu hunain allan o'r dŵr a gorffwys cyn hedfan. Fel arfer gellir gweld oedolion yn hedfan tan ddiwedd mis Awst.

Rhostiroedd Mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro yw un o ychydig gadarnleoedd y rhywogaeth hon, ac mae holl ystod y rhywogaeth yn cael ei ystyried dan fygythiad. Felly, mae'n cael ei gwarchod o dan gyfraith yr UE a'r DU. Mae Mursen Las Penfro wedi'i rhestru fel rhywogaeth hollbwysig yn Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) (2006) yng Nghymru ac mae i'w chanfod yn Ne a Gorllewin Ewrop a Gogledd Affrica. Mae ar gyrion ei chynefin yn y DU.

Yn Sir Benfro mae Mursen Las Penfro yn byw mewn nentydd bas, llawn mwynau alcalinaidd ac mewn llaciau ar rostiroedd. Fel arfer mae'r nentydd hyn yn cael eu bwydo gan lif araf/cymedrol cyson, â maeth isel. Anaml mae'r rhain yn rhewi, mae ganddynt ddigon o olau a digonedd o lystyfiant tanddwr. Rhaid pori pob cynefin addas, ac mae'n rhaid i'r da byw hynny allu cyrraedd y dŵr. Mae anifeiliaid sy'n pori (gwartheg os yn bosibl) yn cadw'r llystyfiant ymylol yn isel ac yn sathru'r ardal yn ysgafn gan gadw nentydd ar agor a chadw'r cynefin mewn cyflwr addas.

Roedd Mursen Las Penfro yn fwy cyffredin yn Sir Benfro, tan yn ddiweddar pan fu i'r poblogaethau yng nghanol a gorllewin y Sir ddiflannu yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Heddiw mae cnewyllyn y boblogaeth ar Fynydd y Preseli gyda thair poblogaeth bellennig yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Waun Fawr (Cas-mael), SoDdGA Mynydd Carningli a safle bychan ger Croes Cas-lai. Mae dirywiad y rhywogaeth yn parhau i fod yn un hirdymor wrth i'w chynefinoedd rannu'n fwyfwy tameidiog ac ynysig. Mae safleoedd unigol yn mynd yn anaddas oherwydd effeithiau naturiol tanbori, gadael y tir heb ei drin neu fathau eraill o reolaeth amhriodol.

**Adolygwyd: Chwefror 2014**

Er mwyn sicrhau dyfodol hirdymor y rhywogaeth hon, mae angen sefydlu trefn bori (gwartheg a chymysg) sy'n gallu creu a chynnal ardaloedd eang o gynefinoedd addas. Yn y tymor byrrach, hyd nes y bydd cyfundrefnau pori addas wedi eu sefydlu, mae angen ymyriadau mecanyddol wedi'u targedu er mwyn creu a chynnal ardaloedd o gynefin addas yn artiffisial. Mae angen canolbwyntio'r pori a'r ymyriadau artiffisial ar safleoedd sydd eisoes yn bodoli ac sy'n gynefin i'r mursennod a hefyd lleoliadau allweddol eraill lle bydd ail-greu cynefin yn cysylltu'r poblogaethau pellennig â'i gilydd neu â phoblogaeth graidd Mynydd y Preseli. Mae Mursen Las Penfro yn rhywogaeth wael am wasgaru, felly er mwyn cyfnewid poblogaethau'r llaciau (sy'n hanfodol ar gyfer hyfywedd tymor hir), mae'n rhaid cael ardaloedd o gynefin addas yn agos i'w gilydd ledled y dirwedd.

Er gwaethaf hyn, mae poblogaeth Sir Benfro yn bwysig iawn gan ei bod yn un o ddau gadarnle'r rhywogaeth hon yn y DU. Mae cannoedd o unigolion yn dal yn hedfan yma yn yr haf.

# Rheoli'r rhywogaeth

Mae pori'n hanfodol er mwyn cynnal yr amodau agored, digysgod y mae'r rhywogaeth hon yn ei ffafrio. Mae tan-bori'n achosi i lystyfiant y glannau dyfu'n ormodol a hyd yn oed dyfu dros nentydd bychain yn gyfan gwbl. Dylai llystyfiant y glannau fod yn weddol brin a byr gyda rhywfaint o lystyfiant talach gerllaw.

Felly, rôl rheolaeth yw:

1. I wrthdroi/atal y dirywiad. Mae angen pori gwartheg, ceffylau/merlod neu ddefaid er mwyn cael gwared ar lystyfiant sy'n cysgodi'r nentydd, ond dim ond stoc trwm (gwartheg a cheffylau) sy'n atal tuedd naturiol llystyfiant i greu twneli dros nentydd ac yna i'r nentydd fynd o dan y ddaear yn y swbstrad mawnog meddal. Efallai y bydd hefyd angen rheoli prysgwydd drwy dorri / llosgi.
2. Cynnal a chreu safleoedd sy'n cynnwys llaciau/nentydd addas ledled y dirwedd er mwyn caniatáu llif o unigolion rhwng poblogaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd a darparu safleoedd amgen petai'r rhai presennol yn mynd yn anaddas.

Mae llawer o gynefin Mursen Las Penfro o gwmpas ACA Mynydd Preseli, ar dir comin. Er ei bod yn bosibl bod hyn wedi helpu i atal y dwysáu amaethyddol a brofwyd yn y dirwedd yn ehangach, mae hefyd yn peri anawsterau cyfreithiol ac ymarferol wrth sefydlu trefniadau pori er lles cadwraeth. Mae'n haws cytuno a gweithredu mesurau i gynnal poblogaethau ar dir preifat gan mai un tirfeddiannwr sydd fel arfer a bod y drefn weinyddol er mwyn hwyluso taliadau am bori er lles cadwraeth mewn achosion fel hyn fel arfer wedi'i sefydlu. Nid yw hyn yn wir yn achos tir comin lle gall fod nifer o Gominwyr gyda hawliau pori cyfreithiol, yn aml yn annibynnol ar y tirfeddiannwr cyfreithiol.

Yn y tymor byr, cyn y gellir gwneud trefniadau pori priodol, neu os fydd hyn yn rhy anodd, mae'n bosibl y bydd angen ymyrraeth fecanyddol. Efallai y bydd angen cynlluniau o'r fath hefyd lle mae gwaith draenio a gwaith arall wedi difrodi'r safle. Mae'n bosibl adfer nentydd a llaciau'n fecanyddol a newid eu trawstoriadau er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cynefin addas.

# Bygythiadau

Daw bygythiadau i'r rhywogaeth hon o:

- Ddiffyg neu bori anaddas sy'n arwain at ymlediad llystyfiant y glannau a/neu dorri ar y cwrs dŵr
- Darnio a dinistrio cynefinoedd gwlyptir
- Hydroleg wedi newid o ganlyniad i dynnu, draenio a/neu newid yn yr hinsawdd
- Cyfoethogiad maetholion a/neu siltio o ddŵr ffo amaethyddol, o bosibl yn arwain at ormod o lystyfiant dyfrol a/neu lefelau isel o ocsigen tawdd

# Cynlluniau a Pholisïau Perthnasol

Cynlluniau/polisïau eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar reolaeth y rhywogaeth hon yn Sir Benfro yw:

- Cynllun Rheoli ACA Mynydd Preseli ar gael o wefan CNC: http://naturalresourceswales.gov.uk/search (chwiliwch am gynllun rheoli ACA Preseli)
- Cynlluniau Rheoli SoDdGA: http://naturalresourceswales.gov.uk/search (chwiliwch am gynlluniau rheoli SoDdGA Sir Benfro)
- Cynllun Gweithredu Cynefin Dŵr Croyw: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36389
- Cynllun Gweithredu Cynefin Rhostir: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36386
- An Overview of the Management Requirements of the Southern Damselfly (*Coenagrion mercuriale*-Charpentier) with Recommendations and Suggested Methodology for Habitat Improvement Within and Near to the Preseli SAC; Claire Gosod, Cymdeithas Gweision y Neidr Prydain (BDS). Mawrth 2012. Ar gael yn: www.british-dragonflies.org.uk/content/management-plan-southern-damselflies-within-and-around-preseli-sac

**Adolygwyd: Chwefror 2014**

# Nodau'r Cynllun

| Rhif | Nod | Dyddiad cau | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| SD01 | Cynnal a chadw pob safle sydd â phoblogaeth o Fursennod Glas Penfro gyda rheolaeth briodol er mwyn sicrhau bod holl nodweddion dŵr y safleoedd yn cynnal y nifer ymarferol mwyaf o Fursennod Glas Penfro | Ebrill 2019 | Casglu data sylfaenol |
| SD02 | Darparu cynefin addas rhwng safleoedd er mwyn lleihau darniad a gwella cysylltedd cynefinoedd. | Ebrill 2019 | Ymgymryd â gwaith mewn lleoliadau allweddol rhwng unrhyw boblogaethau presennol er mwyn ceisio cysylltu poblogaeth ehangach Sir Benfro. |
| SD03 | Lobïo ar i Lywodraeth Cymru weithredu gweithdrefnau effeithiol er mwyn caniatáu i fesurau rheoli cynefinoedd Mursennod Glas Penfro effeithiol gael eu gweithredu ar dir comin. | Ebrill 2019 | |

# Cynllun Gweithredu

| Cod | gweithred | Adroddiad erbyn | Rôl Arweiniol | Cynnydd / Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| SD01.01 | Llunio rhestr o safleoedd presennol a chyn safleoedd ynghyd â map lleoliad. | Mehefin 2014 | BDS/CNC | Defnyddio cofnodion Coker 2002 a BDS. |
| SD02.01 | Nodi pob safle addas lle byddai creu/adfer cynefin o fudd i'r rhywogaeth hon, yn enwedig drwy gysylltu poblogaethau ynysig. Blaenoriaethu'r rhestr o safleoedd a nodwyd yn y drefn y dylid cwblhau gwaith ymarferol. | Mehefin 2015 | BDS / CNC | Cyfeirio at Coker, 2002. Dylid blaenoriaethu er mwyn cysylltu'r poblogaethau iachaf. Dylai fod yn nod i gysylltu o leiaf un o'r tri safle pellennig gyda'r ardal graidd |
| SD01.02 | Monitro a diweddaru cytundebau rheoli tir, sydd â safleoedd Mursen Las Penfro, mewn ymgynghoriad â'r BDS er mwyn sicrhau bod cynefinoedd Mursen Las Penfro'n cael eu cynnal neu eu gwella fel eu bod mewn cyflwr ffafriol i'r rhywogaeth. | Yn flynyddol | CNC | Nodi gwelliannau gan gyfeirio'n benodol at reolaeth pori, tynnu/draenio a chyfoethogi /siltio oherwydd ddŵr ffo amaethyddol. |
| SD01.03 | Defnyddio dulliau mecanyddol i adfer cynefin llaciau Glanyrafon-uchaf (Hopkins Flush) er mwyn adfer llwybr y nant/llaciau a thrawstoriadau agored addas<br><br>Cam 1 - gwaith ar y rhan ogleddol<br>Cam 2 - cwblhau er mwyn cynnwys y corff dŵr cyfan | <br><br><br><br>2012<br>2014 | BDS / APCAP | |
| SD01.04 | Cynllun i godi nant sydd wedi'i chladdu ym Mirianog. Mae angen cwympo ochrau'r hen sianel. | Mehefin 2015 | BDS / APCAP /CNC | |
| SD01.05 | Ailfodelu pwll Rhos Fach er mwyn cael gwared ar silt a lleihau effeithiau dŵr ffo amaethyddol. | Mehefin 2015 | BDS / APCAP /CNC | |

**Adolygwyd: Chwefror 2014**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| SD01.06 | Monitro twf llystyfiant ar y cynefin sydd wedi ei greu ym Mhenlan. Adrodd i APCAP ar unrhyw faterion rheolaeth. Gweithredu unrhyw newidiadau sydd eu hangen i reolaeth safle Penlan er mwyn cynnal cynefin Mursen Las Penfro. | Parhaus | BDS/ APCAP | |
| SD01.07 | Monitro poblogaethau Mursen Las Penfro’n flynyddol. | Parhaus | BDS / CNC | Yn ddelfrydol, byddai pob safle’n cael ei ystyried yn flynyddol, ond nid oes digon o bobl i wneud hyn, felly dylid cymryd golwg strwythuredig ar bob safle o fewn pob cylch adrodd 6 mlynedd adran 25. BDS a CNC i gysylltu er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ddyblygu gwaith.<br><br>Mae CNC yn monitro poblogaeth yr ACA ar gylch chwe blynedd ac yn fodlon bod hyn yn ddigonol ynghyd â rhaglen barhaus o wylio’r boblogaeth gan BDS a gwirfoddolwyr |
| SD03.01 | Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Glastir | Mawrth 2014 | BDS | |